

# Mae eich Senedd yn newid

## Yr hyn sydd angen ichi ei wybod

**Gan ddechrau gyda'r etholiad ar 7 Mai 2026, mae'r Senedd yn newid.**

- **96 o Aelodau:** O'r etholiad ym mis Mai 2026, bydd gan y Senedd 96 o Aelodau yn hytrach na 60.
- **System bleidleisio newydd:** Bydd gan bawb sy’n 16+ un bleidlais nawr, gan ddewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol.
- **Etholaethau newydd:** Bydd gan Gymru 16 o etholaethau. Bydd pob etholaeth yn ethol chwe Aelod.
- **Rheolau newydd:** Rhaid i unrhyw un sy'n sefyll etholiad fyw yng Nghymru.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Ar y dudalen hon:

- Pam mae hyn yn bwysig?
- Faint o Aelodau fydd gan y Senedd?
- Sut mae'r system bleidleisio yn newid?
- Pwy sydd â hawl i bleidleisio?
- Sut mae etholaethau'n newid?
- Cwestiynau cyffredin



# Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru. Mae hyn yn golygu mai **Senedd Cymru, nid Senedd y DU**, sy'n gwneud cyfreithiau i Gymru mewn llawer o feysydd, gan gynnwys:hospitals and GPs

- ysbytai a meddygon teulu
- ysgolion
- trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd
- ffermio ac anifeiliaid
- yr amgylchedd
- y Gymraeg

Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru, a all fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Mae cyfreithiau sydd wedi cael eu pasio gan y Senedd ar gyfer Cymru, ond nid Lloegr, yn cynnwys:

- cyflwyno taliadau am fagiau siopa untro (y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny),
- y terfyn cyflymder o 20mya, a'r
- gwaharddiad ar daro plant.

Mae hyn yn golygu bod gan yr Aelodau y byddwch yn eu hethol ym mis Mai 2026 y pŵer i wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.

# Faint o Aelodau fydd gan y Senedd?

## Gan ddechrau gyda'r etholiad ar 7 Mai 2026, bydd gan y Senedd 96 o Aelodau yn hytrach na 60.

Ers 25 mlynedd, mae nifer yr Aelodau yn y Senedd wedi aros yr un fath, er bod ganddi fwy o gyfrifoldebau erbyn hyn, fel pwerau deddfu llawn a'r gallu i newid rhai trethi yng Nghymru.

Bydd cael mwy o Aelodau yn helpu'r Senedd i wella'r ffordd mae'n archwili ac yn herio cynlluniau a gwariant **Llywodraeth Cymru** ar faterion pwysig megis ysbytai, ysgolion a thrafnidiaeth. Bydd hyn yn rhoi llais cryfach i'ch cymuned yn y penderfyniadau hyn.

Gyda 96 o Aelodau, mae nifer y cynrychiolwyr a fydd gennych chi yn y Senedd yn cyfateb i wledydd eraill o faint tebyg i Gymru - fel yr Alban sydd â 129 o Aelodau a Gogledd Iwerddon sydd â 90..

### Beth sy'n newydd?

- Bydd pleidleiswyr yn ethol 96 o Aelodau.
- Bydd gennych chi chwe Aelod yn eich cynrychioli chi yn y Senedd.
- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad fod yn byw yng Nghymru.

# Sut mae'r system bleidleisio yn newid?

## Yn 2026, bydd y ffordd y byddwch chi'n pleidleisio yn newid.

Os ydych chi dros 16 oed, gallwch chi bleidleisio yn etholiad y Senedd yn 2026. Byddwch chi'n cael un bleidlais i ddewis cynrychiolwyr ar gyfer eich cymuned yn y Senedd.

Enw'r system bleidleisio newydd yw'r 'system rhestr gyfrannol gaeedig'. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n pleidleisio dros blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol, yn hytrach na phobl unigol.

Bydd y papur pleidleisio yn dangos y rhestr lawn o ymgeiswyr yn eich etholaeth, felly byddwch chi'n dal i allu gweld dros bwy rydych chi'n pleidleisio.

Os bydd plaid yn ennill digon o bleidleisiau, bydd yn ennill un neu fwy o seddi yn y Senedd. Os bydd ymgeisydd annibynnol yn ennill digon o bleidleisiau, bydd yn ennill sedd yn y Senedd.

Bydd seddau'n adlewyrchu canran y pleidleisiau y mae pob plaid neu ymgeisydd annibynnol yn ei chael.

Rhagor o wybodaeth: **Sut bydd y system bleidleisio newydd yn gweithio ar gyfer etholiad nesaf y Senedd?**

### Beth sy'n newydd?

- Bydd gennych chi un bleidlais a phapur pleidleisio i ddewis eich cynrychiolwyr yn y Senedd, yn hytrach na dwy bleidlais ar wahân fel mewn etholiadau blaenorol.
- Pan fyddwch chi'n pleidleisio, byddwch chi'n dewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol i'ch cynrychioli.
- O 2026 ymlaen, bydd etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal bob pedair blynedd.

# Pwy sydd â hawl i bleidleisio?

To I bleidleisio yn etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026 rhaid eich bod:

- yn 16 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad (y diwrnod pleidleisio);
- wedi **cofrestru i bleidleisio;**
- yn ddinesydd cymwys o Brydain, Iwerddon neu'r Gymanwlad, yn ddinesydd o'r Undeb Ewropeaidd, neu'n ddinesydd tramor cymwys;
- yn byw yng Nghymru; ac
- yn gymwys yn gyfreithiol i bleidleisio.

## Unrhyw ansicrwydd ynghylch a ydych yn gymwys?

Mae gan y Comisiwn Etholiadol lawer mwy o wybodaeth am gofrestru i bleidleisio ar ei wefan:

**Cofrestru i bleidleisio | Y Comisiwn Etholiadol**



# Sut mae etholaethau'n newid?

## Bydd gan Gymru 16 o etholaethau newydd yn lle 40.

Bydd gan bob etholaeth newydd chwe Aelod, sy’n golygu y bydd cyfanswm o 96 Aelod yn cael eu hethol i’r Senedd.

Creodd **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru** yr ardaloedd newydd drwy ba ru’r 32 etholaeth sydd gan Gymru ar gyfer Senedd y DU. Gwnaeth y Comisiwn hefyd ystyried ffiniau lleol, ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth, a nodweddion naturiol fel afonydd a mynyddoedd.

## Etholaethau’r Senedd ar gyfer etholiad 2026:

1. Bangor Conwy Môn
2. Clwyd
3. Fflint Wrecsam
4. Gwynedd Maldwyn
5. Ceredigion Penfro
6. Sir Gaerfyrddin
7. Gŵyr Abertawe
8. Brycheiniog Tawe Nedd
9. Afan Ogwr Rhondda
10. Pontypridd Cynon Merthyr
11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni

12. Sir Fynwy Torfaen

13. Casnewydd Islwyn

14. Caerdydd Penarth


15. Caerdydd Ffynnon Taf

16. Pen-y-bont Morgannwg

Gallwch ddod o hyd i'ch etholaeth newydd drwy deipio eich cod post yn **ein map i ddod o hyd i etholaethau**

## Beth sy'n newydd?

- Bydd gan Gymru 16 o etholaethau.
- Bydd pob etholaeth yn ethol chwe Aelod o'r Senedd.



# Cwestiynau cyffredin

## Pryd y cynhelir Etholiad 2026 y Senedd?

Bydd etholiad nesaf y Senedd ar 7 Mai 2026.

## A fydd angen newid dyluniad y Senedd i ddarparu ar gyfer Aelodau ychwanegol?

Bydd siambr drafod y Senedd, y Siambr, yn cael ei newid i ddarparu lle ar gyfer pob un o'r 96 o Aelodau. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ebrill 2025 ac yn cael ei gwblhau yng ngwanwyn 2026.

**Mwy o gwestiynau cyffredin ›**





Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales